OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 1911 (Cy. 189)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 23, Llanddulas, Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed 29 Gorffennaf 2013

Yn dod i rym 8 Awst 2013

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer–Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Awst 2013. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 23, Llanddulas, Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2013.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys, neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 8 Awst 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A55 wrth Gyffordd 23, Llanddulas ym Mwrdeistref Conwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw feic pedlo fynd ar y darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

Atal dros dro

7. Atelir dros dro drwy hyn ddarpariaethau Rheoliadau Ffordd Arbennig (yr A55) (Llanddulas i Fae Colwyn) 1984**(3)** i'r graddau y bônt yn ymwneud â'r darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau hynny y bydd y cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

Cymhwyso

8. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 29 Gorffennaf 2013

R Morgan
R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
(3) O.S. 1984/1719

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Gwahardd cerbydau, beicwyr a cherddwyr

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno a'r ffyrdd ymadael tua'r gorllewin a thua'r dwyrain.

ATODLEN 2

Hyd a lled y terfyn cyflymder 40mya

i. Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 2 gilometr i'r gorllewin o’r ynys hollti tua'r dwyrain wrth Gyffordd 23 hyd at bwynt 1 cilometr i'r dwyrain o'r ynys hollti ddywededig;

ii. Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 2 gilometr i'r dwyrain o’r ynys hollti tua'r gorllewin wrth Gyffordd 23 hyd at bwynt 1 cilometr i'r gorllewin o'r ynys hollti ddywededig;

iii. Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno a'r ffyrdd ymadael tua'r dwyrain a'r gorllewin.